# Arwain y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o gefnogi’r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Mae’n cynnwys cydlynu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau, yn seiliedig ar bolisi ac ymarfer yn eich gwlad a’ch lleoliad. Mae hefyd yn cynnwys adolygu ymarfer er mwyn i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol gael eu cynnwys a chymryd rhan. Mae’n gofyn i chi fynd ati ag eraill i gydlynu’r gwaith o gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc unigol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cydlynu polisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
2. datblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n gwella ymarfer cynhwysol ac yn cefnogi cyfranogiad effeithiol ar gyfer plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
3. sicrhau bod y derminoleg arbenigol yn syml ac yn glir i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith
4. nodi a defnyddio ystod o wybodaeth i lywio'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau
5. rhoi gwybodaeth gywir a hygyrch i deuluoedd ac eraill
6. trefnu ac amserlennu adolygiadau asesu fesul cam, gan ymestyn y cyfnod rhyngddynt pan fydd plant neu bobl ifanc yn gwneud cynnydd cyson
7. rhoi ymateb graddoledig a phersonol ar waith sy'n cwrdd ag anghenion unigryw plant a phobl ifanc
8. cynnal disgwyliadau uchel ac ymrwymo i godi cyflawniadau yn seiliedig ar werthusiadau realistig o alluoedd plant a phobl ifanc
9. gweithio ar y cyd ag eraill i sicrhau adnoddau ychwanegol neu gychwyn asesiadau statudol
10. cefnogi eraill i ddiweddaru cynlluniau unigol, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion newidiol
11. sicrhau bod adnoddau ar gael a bod eraill yn nodi ac yn ymateb i anghenion ychwanegol plant neu bobl ifanc
12. magu hyder pobl eraill mewn perthynas â chefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
13. mynd ati i gynllunio'n strategol a chefnogi plant neu bobl ifanc drwy gyfnodau pontio
14. sefydlu trefniadau gweithio mewn partneriaeth ag eraill i wella'r cymorth integredig sydd ar gael i blant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
15. rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phlant neu bobl ifanc, teuluoedd ac eraill
16. adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol
17. defnyddio dulliau casglu a dadansoddi data i werthuso effaith polisïau a

gweithdrefnau

18. nodi materion a chynllunio ar gyfer gwelliant parhaus wrth roi arferion cynhwysol ar waith
19. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc a theuluoedd i ddatblygu ac adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion
20. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
21. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cefnogi â’r newidiadau y gallai plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol eu profi
2. hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan a chydraddoldeb mynediad a sut y mae’r hawliau hyn yn dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir
3. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma ym mholisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
4. yr wybodaeth, yr adnoddau a’r cymorth arbenigol lleol a chenedlaethol sydd ar gael i blant a phobl ifanc, teuluoedd ac eraill
5. egwyddorion gweithio’n effeithiol mewn partneriaeth â theuluoedd
6. y gwahaniaethau rhwng modelau anabledd cymdeithasol a meddygol a’u goblygiadau o ran darparu gwasanaethau
7. ble i ddod o hyd i wybodaeth am anghenion ychwanegol penodol
8. sut mae niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol yn dylanwadu ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
9. dylanwad diwylliant a chefndir ar bolisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
10. pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn sbarduno newid cadarnhaol
11. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion
12. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
13. sut mae nodi a goresgyn heriau o ran mynediad a chyfranogiad
14. y sail resymegol dros ddarpariaeth integredig a’r manteision a ddaw i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
15. y pwrpas a’r defnydd o ddulliau cyfathrebu amgen ac atgyfnerthol a sut i gefnogi eraill i ddefnyddio’r dulliau hyn
16. pwysigrwydd eiriolaeth o ran hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc
17. yr amrywiaeth o gymhorthion, adnoddau, dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, a sut i gael gafael arnynt
18. pwysigrwydd adnabod ac ymyrryd yn gynnar er mwyn atal rhagor o heriau dysgu neu ddatblygu

19. sut mae defnyddio terminoleg arbenigol yn gywir ac yn sensitif
20. y cymorth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd
21. egwyddorion personoli mewn gofal, sut mae'r egwyddorion hyn yn newid arferion, a sut mae gofal personol yn cael ei gynllunio a'i reoli
22. y gwahaniaeth rhwng darparu dysgu wedi'i bersonoli a chwricwlwm gwahaniaethol
23. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
24. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
25. theorïau sy'n berthnasol i arwain y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
26. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
27. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
28. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth arwain y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu yn y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD435

Arwain y gwaith o adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD435 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Adolygu Polisiau, Gweithdrefnau, Arferion, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |